FERSIWN CRYNO

# ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2020-21



# PWRPAS CRAFFU

**CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD**

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

# CRAFFU YNG NGHYFNOD PANDEMIG COVID-19

Mae craffu wedi gorfod addasu'r ffordd o weithio dros y flwyddyn ddiwethaf. Dyma'r camau a gymerwyd i ail-gychwyn y gwaith craffu yn dilyn ei atal am gyfnod oherwydd y pwysau gwaith aruthrol ar wasanaethau'r Cyngor.

**Cam 1 -** Fforwm Craffu yn cyfarfod ar 10 Gorffennaf 2020 i drafod y ffordd ymlaen gydag ail-gychwyn y gwaith craffu.

**Cam 2 -** Gwahodd aelodau i gyflwyno materion i'r Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion eu codi mewn cyfarfodydd anffurfiol gyda'r Aelodau Cabinet, Penaethiaid a'r Cyfarwyddwr perthnasol.

**Cam 3 -** Cyfarfodydd anffurfiol gyda'r Aelodau Cabinet, Penaethiaid a'r Cyfarwyddwr perthnasol yn y cyfnod rhwng 16 - 23 o Fedi.

**Cam 4 -** Fforwm Craffu yn cyfarfod ar 29 Medi 2020 i gadarnhau'r ffordd ymlaen o ran ail-gychwyn y gwaith craffu ffurfiol, a thrafodaeth o ran blaenoriaethu eitemau.

**Cam 5 -** Cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu yn ail-gychwyn ym mis Hydref.

**Cam 6 -** Sesiynau Aelodau Cabinet ym mis Tachwedd i rannu gwybodaeth am waith yr adrannau, effaith Covid-19 a prif flaenoriaethau i'r dyfodol. Cyfle unigryw i adnabod materion posib i'w craffu yn y cyfnod anarferol.

# EITEMAU CRAFFU

Yn 2020-21, craffwyd 29 eitem yng nghyfarfodydd ffurfiol craffu, gan gynnwys y canlynol:

**Twf Economaidd Gogledd Cymru**

**Cyflawni Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yng Ngwynedd**

**Defnydd o'r Grant Cymorth Tai i leihau digartrefedd yng Ngwynedd**

**Papur Ymchwil: Rheoli'r defnydd o dai fel tai gwyliau**


**Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd**

**Rheolaeth o Arddangosfeydd Tân Gwyllt**

Mae aelodau craffu yn dewis eitemau gan adnabod pwnc sydd yn bwysig ac sydd angen ei graffu er mwyn gwneud gwahaniaeth i bobl Gwynedd. Bydd aelodau craffu yn parhau i wneud hyn yn 2021-22.

# GALW I MEWN

Fel rhan o'r drefn craffu mae gan aelodau hawl i alw penderfyniadau i mewn i'w craffu. Yn 2020/21 galwyd un penderfyniad i mewn i'w graffu, sef penderfyniad y Cabinet i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch.




Er bod y Cabinet heb addasu ei benderfyniad gwreiddiol. Llwyddodd y gwaith craffu yma i amlygu pryderon lleol gyda'r Cabinet yn cydnabod yr angen i gadw golwg ar yr ymgynghoriad a gofyn i'r Adran Addysg am adroddiad cyson ar sut roedd y broses yn symud yn ei blaen.

**Mae'r holl wybodaeth am y gwaith craffu yn 2020-21 ar gael yn y fersiwn llawn ar wefan y Cyngor – [https://www.gwynedd.llyw.cymru/craffu](https://www.gwynedd.llyw.cymru/craffu)**

# Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2020/21

**48 aelod** wedi bod yn rhan o wneud y gwaith craffu pwysig yn ystod y flwyddyn.

**29 eitem** wedi eu craffu mewn cyfarfodydd ffurfiol.

**3 cyfarfod** o'r Fforwm Craffu wedi ei gynnal yn ystod y flwyddyn.

Cyfanswm o **32** aelod craffu wedi **mynychu 9 sesiwn** rhannu gwybodaeth Aelod Cabinet.

Eraill yn rhan o'r gwaith craffu:

- **7** aelod cyfetholedig (5 gyda phleidlais ar faterion addysg yn unig, 2 heb bleidlais)
- **1** aelod lleyg

**Cyfarfodydd wedi eu cynnal** rhwng Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion a'r Aelodau Cabinet a Phenaethiaid perthnasol.

**Cefnogaeth i'r gwaith craffu** gan y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith, Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu ac Ymgynghorydd Craffu.